OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 691

## Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017

## RHAN 4

### Gorfodi

**Arolygwyr**

**16.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi arolygwyr at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(2) Mae gan arolygydd y pwerau a nodir yn y Rhan hon o'r Rheoliadau.

**Mynd ar dir ac i fangreoedd a'u harolygu**

**17.**—(1) At ddibenion gorfodi'r Rheoliadau hyn, mae gan arolygydd y pŵer, drwy ddangos awdurdodiad wedi ei ddilysu'n briodol, i fynd ar unrhyw dir neu i unrhyw fangre (ac eithrio unrhyw fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel tŷ annedd preifat) ar unrhyw adeg resymol drwy roi hysbysiad rhesymol.

(2) Ond nid yw'r gofyniad i roi hysbysiad yn angenrheidiol—

(a) pan fo ymdrechion rhesymol i gytuno ar apwyntiad wedi methu;

(b) pan fo gan arolygydd amheuaeth resymol o fethiant i gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn;

(c) mewn argyfwng.

(3) Caiff ynad heddwch, drwy warant wedi ei llofnodi, ganiatáu i arolygydd fynd ar unrhyw dir neu i unrhyw fangre, a hynny gan ddefnyddio grym rhesymol os oes angen, os yw'r ynad wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig a roddir ar lw—

(a) bod sail resymol dros fynd ar y tir hwnnw neu i'r fangre honno at ddiben gorfodi'r Rheoliadau hyn; a

(b) y bodlonir unrhyw un neu ragor o'r amodau ym mharagraff (4).

(4) Yr amodau yw—

(a) bod mynediad i'r fangre wedi ei wrthod, neu'n debygol o gael ei wrthod, a bod hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant wedi ei roi i'r meddiannydd;

(b) y byddai gofyn am gael mynediad i'r fangre, neu roi hysbysiad, yn mynd yn groes i'r amcan o fynd i'r fangre;

(c) bod angen mynediad ar fyrder;

(d) bod y fangre heb ei meddiannu neu fod y meddiannydd yn absennol dros dro.

(5) Mae gwarant yn ddilys am dri mis.

(6) Caiff arolygydd sy'n mynd ar unrhyw dir neu i unrhyw fangre fynd ag unrhyw berson (hyd at gyfanswm o 4 o bersonau), cyfarpar, deunyddiau neu gerbyd gydag ef y mae'r arolygydd yn ystyried eu bod yn angenrheidiol at ddibenion y rheoliad hwn.

(7) Rhaid i arolygydd sy'n mynd i unrhyw fangre nad yw wedi ei meddiannu, neu y mae ei meddiannydd yn absennol ohoni dros dro, ei gadael wedi ei diogelu yr un mor effeithiol rhag mynediad heb awdurdod ag yr ydoedd cyn iddo fynd iddi.

### Chwilio ac archwilio eitemau ar dir ac mewn mangreoedd

**18.**—(1) Pan fo arolygydd yn arfer y pŵer a roddir gan reoliad 17, caiff yr arolygydd—

(a) agor unrhyw gynhwysydd;

(b) cynnal unrhyw chwiliadau, arolygiadau, mesuriadau a phrofion;

(c) cymryd samplau;

(d) gweld, ac arolygu, unrhyw lyfrau, dogfennau neu gofnodion (ar ba ffurf bynnag y cedwir hwy) sy'n ymwneud â'r Rheoliadau hyn a mynd â hwy oddi yno i'w gwneud yn bosibl eu copïo;

(e) tynnu llun o unrhyw beth neu gopïo unrhyw beth y mae gan yr arolygydd y pŵer i'w gwneud yn ofynnol ei ddangos o dan is-baragraff (d);

(f) tynnu llun o unrhyw beth y mae gan yr arolygydd achos rhesymol i gredu y gallai fod yn berthnasol mewn cysylltiad â gorfodi'r Rheoliadau hyn;

(g) ymafael mewn unrhyw gyfrifiaduron ac offer cysylltiedig at ddiben copïo dogfennau ar yr amod y'u dychwelir cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(2) Caiff unrhyw berson sy'n mynd gydag arolygydd yn unol â'r rheoliad hwn gyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r arolygydd, ond dim ond o dan oruchwyliaeth yr arolygydd hwnnw.

### Hysbysiad gwybodaeth

**19.** Caiff arolygydd, drwy hysbysiad a gyflwynir i unrhyw berson, ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw ddarparu'r cyfryw wybodaeth a bennir yn yr hysbysiad ar y cyfryw ffurf a bennir ynddo ac o fewn y cyfryw gyfnod ar ôl cyflwyno'r hysbysiad neu ar y cyfryw adeg a bennir ynddo.

### Hysbysiad gwahardd symud

**20.** Caiff arolygydd, drwy hysbysiad a gyflwynir i unrhyw berson, wahardd y person hwnnw rhag symud deunyddiau planhigion o unrhyw fangre pan fo gan yr arolygydd sail resymol dros amau bod y deunyddiau planhigion yn methu â chydymffurfio â gofynion y Rheoliadau hyn.

### Hysbysiad gorfodi a gwahardd

**21.**—(1) Caiff arolygydd gyflwyno hysbysiad i unrhyw berson sy'n torri, neu y mae gan yr arolygydd sail resymol dros amau y gallai dorri, y Rheoliadau hyn—

(a) yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw weithredu yn unol â'r Rheoliadau ("hysbysiad gorfodi");

(b) yn gwahardd y person hwnnw rhag gweithredu'n groes iddynt ("hysbysiad gwahardd").

(2) Rhaid i'r hysbysiad roi'r rhesymau dros ei gyflwyno ac, os yw hynny'n briodol, bennu pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd a rhoi terfynau amser.

### Apelau yn erbyn hysbysiadau

**22.**—(1) Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan benderfyniad arolygydd i gyflwyno hysbysiad o dan y Rhan hon apelio i lys ynadon.

(2) Pan wneir apêl i lys ynadon, y weithdrefn fydd ei gwneud ar ffurf achwyniad, a Deddf Llysoedd Ynadon 1980(**1**) fydd yn gymwys i'r achos.

(3) Y cyfnod erbyn pryd y mae'n rhaid dwyn apêl yw 28 o ddiwrnodau o'r adeg y cyflwynwyd yr hysbysiad neu, yn achos hysbysiad gorfodi, y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, pa un bynnag sy'n diweddu gynharaf.

(4) Rhaid i hysbysiad a gyflwynir o dan y Rhan hon ddatgan—

(a) bod hawl i apelio i lys ynadon;

(b) o fewn pa gyfnod y caniateir dwyn apêl o'r fath.

(5) Pan ddygir apêl o dan y rheoliad hwn, caiff y llys naill ai ganslo neu gadarnhau'r hysbysiad, ac os yw'n cadarnhau'r hysbysiad, caiff wneud hynny naill ai ar ei ffurf wreiddiol neu gyda'r addasiadau hynny y mae'n meddwl eu bod yn briodol.

### Cydymffurfio â hysbysiadau

**23.** Rhaid cydymffurfio â hysbysiad a gyflwynir o dan y Rhan hon ar draul y person y cyflwynir yr hysbysiad hwnnw iddo ac, oni chydymffurfir ag ef, caiff arolygydd drefnu cydymffurfiaeth ag ef ar draul y person hwnnw.

### Troseddau a chosbau

**24.**—(1) Mae'n drosedd i berson—

(a) methu â chydymffurfio â hysbysiad a gyflwynir o dan—

(i) rheoliad 19 (hysbysiad gwybodaeth);

(ii) rheoliad 20 (hysbysiad gwahardd symud);

(iii) rheoliad 21(1)(a) (hysbysiad gorfodi);

(iv) rheoliad 21(1)(b) (hysbysiad gwahardd);

(b) heb esgus rhesymol, fethu â rhoi unrhyw gymorth y gall person ofyn amdano er mwyn i'r person hwnnw gyflawni ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn;

(c) rhwystro arolygydd yn fwriadol wrth iddo arfer unrhyw bwerau a roddwyd gan y Rheoliadau hyn.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan baragraff (1) yn atebol, o'i euogfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

### Troseddau gan gyrff corfforaethol

**25.**—(1) Os profir bod trosedd a gyflawnwyd o dan y Rheoliadau hyn gan gorff corfforaethol—

(a) wedi cael ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad swyddog, neu

(b) i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran swyddog,

bydd y swyddog, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o'r drosedd a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) Os rheolir materion corff corfforaethol gan ei aelodau, mae paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â gweithredoedd a diffyg gweithredoedd aelod mewn cysylltiad â swyddogaethau rheoli'r aelod fel pe bai'r aelod yn gyfarwyddwr i'r corff.

(**1**) 1980 p. 43; amnewidiwyd adrannau 51 a 52 gan adran 47 o Ddeddf Llysoedd 2003 (p. 39). Diwygiwyd adrannau 53 a 54 gan adran 17(6) o Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22).

(3) Ym mharagraff (1) ystyr "swyddog", mewn perthynas â chorff corfforaethol, yw cyfarwyddwr, aelod o'r pwyllgor rheoli, prif weithredwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog cyffelyb arall y corff, neu berson sy'n honni gweithredu mewn unrhyw swydd o'r fath.